CYNLLUN BUSNES 2011-12 Y CPS

Rhagair y Twrnai Cyffredinol: Ymateb i'r Her
Yr her i'r erlyniad yw cyflawni rhagor o effeithlonrwydd heb gyfaddawdu ar ansawdd na gofynion cyfiawnder. Fel Gweinidog yn y Llywodraeth, rwy'n gwybod bod yn rhaid i'r system cyfiawnder troseddol chwarae ei rhan yn llawn wrth gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd sy'n ofynnol yn yr hinsawdd economaidd presennol. Fel Twrnai Cyffredinol, rwy'n benderfynol y bydd hynny'n cael ei gyflawni heb lesteirio ansawdd cyfiawnder.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithredu mewn ffordd gadarnhaol o ran cynnal a gwella ansawdd y system cyfiawnder troseddol. Ar ôl gweithio'n agos â'r Cyfarwyddwr dros y flwyddyn ddiwethaf, rwy'n gwybod bod llawer iawn o waith pwysig wedi'i wneud eisoes tuag at siapio Gwasanaeth Erlyn y Goron er mwyn ymateb i'r heriau sydd o'i flaen. Er enghraifft, mae cyflwyno Safonau Ansawdd Craidd yn golygu bod gan y bobl o fewn y gwasanaeth, yn ogystal â'r cyhoedd, ddisgwyliadau clir o ran safonau gofynnol y gwasanaeth. Bydd mentrau gweddnewidiol eraill, fel y rhai sy'n gysylltiedig â thechnoleg, o gymorth i warchod a gwella ansawdd y gwasanaeth a gynigir i'r cyhoedd a gwella'r ffordd y bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio gyda'i bartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol.

Yn sgil fy ymweliadau rheolaidd â Rhanbarthau Gwasanaeth Erlyn y Goron rwy'n gallu gweld yn uniongyrchol sut mae gwasanaeth erlyn cenedlaethol yn cael ei gyflwyno'n lleol. Mae'r staff ymroddedig a phroffesiynol y byddaf yn cwrdd â nhw mewn sefyllfa dda i gyflawni cynlluniau'r Cyfarwyddwr ar gyfer gwasanaeth modern a diwastraff, sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Mae'r cynllun hwn yn pennu'r prif flaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth yn y flwyddyn i ddod er mwyn adeiladu ar yr hyn y gyflawnwyd yn ddiweddar. Edrychaf ymlaen at gadw golwg agos ar y cynnydd.

Rhagarweiniad gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a'r Prif Weithredwr
Ers peth amser bu Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn paratoi ar gyfer canlyniad Adolygiad o Wariant 2010 (SR10). Rydym eisoes wedi rhoi nifer o fesurau ar waith er mwyn gostwng ein costau, megis: gostwng maint y Pencadlysoedd; aildrafod contractau masnachol; rhewi recriwtio; ac uno â'r Swyddfa Erlyniadau Cyllid a Thollau. Mae hyn oll yn golygu bod y CPS wedi ymbaratoi'n dda i wneud yr arbedion sy'n ofynnol.

Rydym yn glir iawn hefyd ynghylch y gwasanaeth y mae angen i ni ei gyflwyno. Ym mis Mawrth 2010 fe lansiwyd ein Safonau Ansawdd Craidd a dyma'r sylfaen ar gyfer adeiladu'r Gwasanaeth. Rydym yn glir iawn drwy gydol y newidiadau rydym yn eu gwneud fod yn rhaid i ni barhau i gynnal a gwella ansawdd ein gwasanaeth.

Yn ystod y flwyddyn sy'n dod bydd y CPS yn gweddnewid y ffordd rydym yn gweithio a sut byddwn yn ymgysylltu â'n partneriaid a'r cyhoedd. Mae ein rhaglen gweddnewid trwy dechnoleg (T3) yn sylfaenol yn hyn o beth, a'r flwyddyn sy'n dod yn allweddol.

Trwy weithredu'r cynllun busnes hwn yn llwyddiannus yn y flwyddyn sy'n dod, byddwn yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yng nghyfnod yr Adolygiad o Wariant.

Ein Gweledigaeth ar gyfer y CPS
Mae gennym weledigaeth ar gyfer y CPS sy'n berthnasol drwy gydol 2011-12 ac ymlaen i 2015.

Beth fyddwn ni?
Gwasanaeth erlyn llyfn, sy'n perfformio'n dda, sy'n canolbwyntio'n ddiflino ar ansawdd ac sy'n cael ei barchu am ei broffesiynoldeb.

Byddwn yn hyderus a chryf.
Bydd pobl yn ymddiried yn ein herlynwyr, a fyddant yn gwneud penderfyniadau cadarn am erlyn heb gyfeirio'n ddianghenraid. Byddant wedi paratoi'n drwyadl ar gyfer y llys ac yn herio eraill sydd heb baratoi'n dda. Bydd ein holl aelodau staff yn barod i ddatrys problemau ac ysgwyddo cyfrifoldeb. Byddwn yn dylanwadu ar ein partneriaid cyfiawnder er mwyn gwneud y system gyfan yn fwy effeithlon a gwell.

Byddwn yn annibynnol wrth wneud penderfyniadau.
Byddwn yn gwneud pob penderfyniad erlyn yn rhydd rhag dylanwad amhriodol ac er budd cyfiawnder. Byddwn yn parchu a sefyll dros hawliau dioddefwyr. Byddwn yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'n partneriaid cyfiawnder. Ond ni ein hunain fydd yn gwneud ein penderfyniadau am waith achosion.

Byddwn yn agored, yn atebol a theg.
Byddwn yn egluro ein penderfyniadau a rhoi cyfrif am y gwasanaeth a gyflwynwn.
Byddwn yn trin ein staff yn deg a gyda pharch ac urddas, gan sefydlu athroniaeth *Un CPS* yn ein holl dimau.
Bydd dewisiadau gyrfa wedi'u diffinio'n eglur ar gyfer ein staff, a chyfle iddynt ddatblygu i'w llawn botensial.

Byddwn yn effeithlon.
Byddwn yn gostwng gwariant trwy sefydlu diwylliant o fod yn ymwybodol o gostau ar bob lefel a chael y gwerth gorau am arian.
Byddwn yn symleiddio ein polisïau a'n prosesau, gan wneud erlyniadau mor syml â phosib.
Byddwn yn cyflwyno gwelliannau o'r naill flwyddyn i'r llall o ran effeithlonrwydd ac economi, trwy symleiddio ein prosesau busnes a defnyddio technoleg gwybodaeth i'r eithaf.

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid cyflawnder troseddol i ddatblygu a chyflwyno System Cyfiawnder Troseddol effeithlon ac effeithiol.

Ein Hamcanion Strategol
Er mwyn cefnogi Gweledigaeth y CPS a'n galluogi i ganolbwyntio ein hymdrech a'n gweithgarwch ar y pethau cywir, mae gennym bedwar amcan strategol. Sef:

- Darparu gwasanaeth o'r **Ansawdd** uchaf. Mae gennym ddull clir a chyhoeddedig o sicrhau ansawdd y gwasanaeth yn y Safonau Ansawdd Craidd sy'n pennu'r safonau y cawn ein barnu arnynt;
- Darparu gwasanaeth diwastraff ac **Effeithlon**. Mae angen i ni ymdrin ag effeithlonedd mewn dull cynaliadwy er mwyn gostwng costau ein hadnoddau a chael gwell cynhyrchiant, ar sail diwylliant o welliant parhaus;
- Digideiddio ein prosesau busnes a **Gweddnewid y CPS trwy Dechnoleg (T3)** trwy wneud yn fawr o'r cyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd sy'n dod yn sgil technoleg newydd a thechnoleg sy'n bodoli eisoes;
- Ysbrydoli, ymgysylltu a chefnogi ein **Pobl** trwy gyflwyno strategaeth pobl newydd sy'n hyrwyddo diwylliant cynhwysol gan gydnabod cyfraniad unigolion a chefnogi dyheadau'r Gwasanaeth o ran unplygrwydd, tegwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Bydd y byd rydym yn gweithredu o'i fewn yn newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod at 2015. O gymryd ein hamcanion strategol gyda'i gilydd, maent yn ganolbwynt rhesymegol a chydlynol i ni. Mae pob amcan wedi plethu â'r lleill ac ni ellir ystyried unrhyw amcan yn unigol. Er enghraifft, ni ellir mynd ati'n llwyddiannus i gyflwyno ffordd ddigidol o weithio heb newid y ffyrdd rydym yn gweithio, gan olygu'n amlwg bod angen i'n pobl newid y ffyrdd y maent yn gweithio. Yn yr un modd, cyfyngedig fydd llwyddiant ein gwaith effeithlonrwydd oni bai ein bod yn mynd ati i harneisio potensial gweithio'n ddigidol, er mwyn rhoi cyfleoedd ar gyfer prosesau newydd a mwy cost-effeithiol. Mae'r angen i gynnal a gwella ansawdd ein gwasanaeth yn troi'n faen prawf ar gyfer yr holl newidiadau eraill.

Nid ydym yn gweithio ar ein pen ein hunain ac mae'r amcanion strategol yn gyson ag agwedd ein partneriaid, ar y cyd ac ar wahân, o ran rheoli effeithlonrwydd y system cyfiawnder troseddol yn gyffredinol. Yn wir, bydd yr amcan digidol yn rhoi cyfleoedd i'n partneriaid yn ogystal â ni'n hunain wella effeithlonrwydd a chostau. Fe fydd hefyd yn rhan hanfodol o Raglen Effeithlonrwydd y System Cyfiawnder Troseddol yn gyffredinol, a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni.

Rydym wedi defnyddio pedwar amcan strategol i yrru ein prif ganlyniadau cynllunio a'n dull o ymdrin â rheoli perfformiad a risg.

Ein Hadnoddau
Mae setliad yr Adolygiad o Wariant ar gyfer y CPS yn cynrychioli gostyngiad o 25% mewn termau real yn y Terfyn Gwariant Adrannol ar Adnoddau (RDEL) dros y cyfnod o bedair blynedd at 2014-15. Yn nhermau arian parod mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o £107m o linell sylfaen y Trysorlys ar gyfer 2010-11 a chyfanswm gostyngiad mewn adnoddau o £39m yn 2011-12.

		Gwariant y CPS a gynlluniwyd dros SR10			
	2010-11	**2011-12**	**2012-13**	**2013-14**	**2014-15**
	£m	£m	£m	£m	£m
Darpariaeth y CPS[1]	*631.9*	613.1	583.8	559.5	520.9
Incwm	*79.9*	59.4	59.4	59.4	59.4
Cyfanswm Arian ar gael	***711.8***	**672.5**	**643.2**	**618.9**	**580.3**

[1]Nid yw'r arian yn cynnwys AME

Wrth baratoi ar gyfer yr Adolygiad o Wariant a'r pwysau anorfod ar wariant cyhoeddus, mae'r adran eisoes wedi dechrau gostwng costau trwy rewi recriwtio ledled y Gwasanaeth a rheoli caffael o'r newydd ar gyfer staff dros dro, ymgynghori a theithio. Yn ystod 2011-12 bydd yr adran yn parhau i ostwng costau trwy gael gwell effeithlonrwydd a rhaglen strwythuredig i ostwng costau sy'n sicrhau y ceir arbedion heb aberthu ansawdd mewn unrhyw agwedd ar y Gwasanaeth.

		Gwariant y CPS a gynlluniwyd dros SR10				%
	2010-11	**2011-12**	**2012-13**	**2013-14**	**2014-15**	**Arbedion**
	£m	£m	£m	£m	£m	
Rhanbarthau	*527.0*	501.5	485.2	470.8	451.8	-14%
Pencadlys a Chanolfannau Busnes	*106.9*	89.3	80.6	73.5	68.7	-36%
Corfforaethol	*77.9*	81.7	77.4	74.6	59.8	-23%
Gwariant Gros y CPS	***711.8***	**672.5**	**643.2**	**618.9**	**580.3**	**-18%**

Mae proffil y gwariant dros yr Adolygiad o Wariant yn adlewyrchu'r flaenoriaeth a roddir i gyflawni yn y rheng flaen. Bydd elfen weinyddol y gwariant ar Bencadlysoedd a gwasanaethau corfforaethol, sy'n cynnwys costau staff, yn gostwng 50% dros y pedair blynedd nesaf. Yn gyffredinol bydd gwariant ar y Pencadlysoedd yn gostwng 36% o gymharu ag 14% ar gyfer y Rhanbarthau. Bydd telerau sydd wedi'u

trafod o'r newydd yn arwain at arbedion ar ddefnyddiau traul ar gyfer y swyddfa, rheoli cyfleusterau a gwasanaethau cyfreithiol proffesiynol.

Bydd ein Strategaeth Ystadau yn cyflwyno gostyngiad yn nifer y swyddfeydd bach, aneconomaidd. Bydd cydgrynhoi i swyddfeydd mwy yn golygu y gellir defnyddio adnoddau yn fwy hyblyg ac effeithiol. Ym mis Mai 2010 fe wnaeth y staff ym Mhencadlys Llundain a Grwpiau Gwaith Achos adleoli i safle llai drud a chyflwynwyd patrymau gwaith hyblyg a gefnogwyd gan gymhareb o 8:10 o ran gweithfannau i staff. Trwy gynyddu'r gyfradd llenwi yn adeilad Pencadlys Llundain mae'r adran wedi sicrhau y gellir cau safleoedd eraill yn Llundain dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r gymhareb 8:10 yn cael ei gweithredu nawr ym mhob swyddfa'r CPS a bydd buddion tebyg yn cronni.

Bydd arbedion effeithlonrwydd gweithredol yn cael eu cyflawni trwy ymestyn technegau gwella busnes, fel LEAN a'n Model Busnes Optimwm, a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus yn y Llysoedd Ynadon, at Lys y Goron. Byddwn yn gwneud arbedion pellach trwy sicrhau bod ymarferwyr annibynnol ac eiriolwyr y CPS yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon mewn Llysoedd Ynadon a Llys y Goron. Bydd cynhyrchiant yn parhau i wella trwy reoli perfformiad yn effeithiol a digideiddio gweinyddiaeth ffeiliau achosion.

Mae'r CPS yn gweithio'n agos â phartneriaid cyfiawnder troseddol yn genedlaethol a lleol i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio i gyflwyno'r gwasanaeth gorau, mwyaf cost-effeithiol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cyflwyno ffyrdd newydd o ymdrin â phledion euog cynnar yn Llys y Goron a phroses weinyddu achosion sengl gyda'n partneriaid, a alluogir gan y gwaith rydym yn ei wneud yn fewnol trwy T3, sy'n cyd-fynd ag agenda ehangach digideiddio'r system cyfiawnder troseddol.

Yn 2010-11, fe wnaeth y CPS erlyn 957,881 o ddiffynyddion yn y llysoedd yng Nghymru a Lloegr: 116,898 yn Llys y Goron, ac 840,983 yn y Llysoedd Ynadon. Yn ychwanegol at hyn, bu'n delio ag 13,961 apêl ac 19,857 traddodi i ddedfryd yn Llys y Goron. Mae costau'r achosion hyn i'r CPS yn amrywio'n fawr, gan ddibynnu ar y llys, y math o achos, a'r canlyniad. Mae ein setliad SR10 wedi'i seilio ar ddim newid sylweddol i'n llwyth achosion presennol.

Rheoli ein Perfformiad

Adroddir am berfformiad corfforaethol y CPS i Fwrdd y CPS bob chwarter, gan fesur sut byddwn yn cwrdd â'n pedwar amcan strategol yn ogystal â mynd i'r afael â gofynion y Trysorlys o ran datblygu cynaliadwy a chostau cyflogau. Bydd datblygiadau ehangach yn y system cyfiawnder troseddol yn cael eu bwydo i'r adroddiad hefyd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar yr agenda arbedion effeithlonrwydd ledled y system.

Bydd amcanion a mesurau perfformiad ar lefel Rhanbarthau, Grŵp Gwaith Achos a Chyfarwyddiaeth y Pencadlys yn cael eu gwneud yn gydnaws ag amcanion strategol y CPS hefyd.

Yn 2010-11 fe wnaethom ni gyflwyno fframwaith newydd i sicrhau perfformiad ac ansawdd, ar sail data ansoddol a meintiol. Yn 2011-12 byddwn yn adeiladu ar y fframwaith hwnnw gydag ymdriniaeth sy'n fwy soffistiedig nag a gafwyd yn y blynyddoedd blaenorol, a bydd yn cynnwys:

- ansawdd y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu yn cael ei fesur yn erbyn ein Safonau Ansawdd Craidd gyda phroses Monitro Safonau Ansawdd Craidd newydd;
- canlyniadau dros 900,000 o achosion sy'n cael eu herlyn bob blwyddyn yn ôl asesiadau trwy gyfres o fesurau dilysu;
- y ffordd rydym yn rheoli cyllidebau a chyflwyno gostyngiadau mewn costau;
- canlyniadau'r arolwg staff a mesurau eraill yn gysylltiedig â phobl; a
- barn Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron a phartneriaid allweddol yn y system cyfiawnder troseddol.

Ar lefel genedlaethol, byddwn yn adrodd dan agenda tryloywder y Llywodraeth trwy gyhoeddi data yn unol â pholisi'r Llywodraeth.

Mae'n ddyletswydd arnom hefyd i adrodd yn erbyn nifer o fesurau mewn perthynas â chynaliadwyedd, gan gynnwys:

- Allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- Lleihau a rheoli gwastraff;
- Defnyddio Adnoddau Cyfyngedig;
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth; a
- Chaffael cynaliadwy.

Yn olaf, byddwn hefyd yn adrodd ar gynrychiolaeth ein gweithlu o ran materion cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys ethnigrwydd, rhyw ac anabledd.

Ein Blaenoriaethau Cynllunio yn 2011-12
Dyma ein prif flaenoriaethau dan bob un o'r Amcanion Strategol. Nid ydynt yn cynnwys y gwaith a wnawn fel mater o drefn i erlyn yr achosion a dderbyniwn, na'r gwaith a wneir i gefnogi'r erlyniadau hynny.

Amcan Strategol	**Ansawdd**	
Blaenoriaeth Cynllunio a Pherchennog	**Disgrifiad**	**Cerrig Milltir 2011-12**
Safonau Ansawdd Craidd Mike Kennedy, Prif Swyddog Gweithredu	Yn dilyn lansiad ein Safonau Ansawdd Craidd ym mis Mawrth 2010 fe weithredwyd system i Fonitro Safonau Ansawdd Craidd yn 2010-11. Mae'r broses monitro yn asesu ansawdd ein perfformiad yn erbyn 34 ymrwymiad a bennir yn y Safonau Ansawdd Craidd. Bydd canlyniadau monitro yn cael eu dilysu yn erbyn ystod o fesurau perfformiad allweddol sy'n deillio o'r system rheoli gwaith achos a chronfeydd data corfforaethol eraill. Bydd canlyniadau'r asesiadau monitro a mesurau perfformiad allweddol yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd chwarterol yr Adolygiadau ar Berfformiad Rhanbarthau. Yn 2010-11, byddwn yn adeiladu ar yr Adolygiadau ar Berfformiad Rhanbarthau trwy werthuso Monitro Safonau Ansawdd Craidd a mireinio yn ôl yr angen. Byddwn hefyd yn cyflwyno system ar gyfer sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gorchmynion llys.	Gweithredu system monitro cyfeiriad y llys Hydref 2011 Gwerthuso CQSM Erbyn Rhagfyr 2011 Asesiadau chwarterol parhaus ar Berfformiad Rhanbarthau Bob chwarter yn barhaus
Eiriolaeth	Gweithredu cynllun Panel Eiriolwyr cyntaf y CPS i sefydlu Paneli o eiriolwyr sydd â'r gallu, gwybodaeth a	Lansio'r cynllun 31 Mawrth 2011

Mike Kennedy, Prif Swyddog Gweithredu	phrofiad angenrheidiol i ymgymryd ag eiriolaeth erlyn o'r ansawdd uchaf er budd y CPS a'r system cyfiawnder troseddol ehangach. Bydd y Paneli yn cyd-fynd â'r adnawdd eiriolaeth mewnol sydd eisoes ar gael i'r CPS.	Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 31 Gorffennaf 2011 Cyhoeddi canlyniadau 31 Hydref 2011 Paneli Dros Dro yn dechrau Erbyn 1 Rhagfyr 2011
Dioddefwyr a Thystion Nick Hunt, Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi	Mae cefnogaeth o ansawdd i ddioddefwyr a thystion yr erlyniad yn ganolog wrth sicrhau eu bod yn barod i fynychu'r llys ac yn gallu rhoi eu tystiolaeth orau. Mae'r gwaith ar symleiddio ac egluro'r gwasanaeth a roddwn i ddioddefwyr a thystion eisoes ar y gweill. Bellach mae angen i ni orffen a rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaeth newydd.	Cyhoeddi ymchwil i ddarpariaeth Mesurau Arbennig Hydref 2011 Cytundeb ar gyfer gwasanaeth diwygiedig i ddioddefwyr a thystion, ar sail cymesuredd a'r angen mwyaf Tachwedd 2011 Model cyflawni newydd ar gyfer gofal i ddioddefwyr a thystion yn ei le ledled Cymru a Lloegr (gan weithio gyda phartneriaid yn yr heddlu). Ebrill 2012
Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWAG) Nick Hunt, Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi Dale Simon, Cyfarwyddwr Cydraddoldeb ac	Gwella ansawdd ein hymateb i amryw o droseddau sy'n dod dan ymbarél Trais yn erbyn Menywod a Merched, gan gynnwys: trais domestig, aflonyddu, troseddau anrhydedd bondigrybwyll; treisio a throseddau rhywiol; a'r fasnach mewn pobl, gan ganolbwyntio ar y fasnach mewn ecsbloetio rhywiol.	Cyflawni ymrwymiadau'r CPS a amlinellir yn y cynllun gweithredu traws-lywodraethol ar Drais yn erbyn Menywod a Merched a gyhoeddwyd ar 8 Mawrth 2011. Gan gynnwys: • Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar Drais yn erbyn Menywod a Merched Rhagfyr 2011 • Asesiad dwywaith y flwyddyn ar erlyniadau Trais yn erbyn Menywod a Merched Ebrill 2011 a Hydref 2011 Byddwn hefyd yn gweithredu camau ar erlyniadau

Amrywiaeth		treisio a amlinellwyd gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2010 gan gynnwys: • Canllaw terfynol y CPS ar wyrdroi cwrs cyfiawnder o ran honiadau treisio Hydref 2011
Trosedd Casineb Nick Hunt, Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi Dale Simon, Cyfarwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Mae diogelwch personol a diogelwch eiddo, a'r hawl i fyw yn rhydd rhag ofn ac aflonyddu, yn hawliau dynol sylfaenol. Mae trosedd casineb yn tanseilio teimlad o ddiogelwch personol, diogelwch eiddo a hyder yng nghymdeithas yr unigolion y mae'n effeithio arnynt. Mae troseddau o'r fath yn seiliedig ar anwybodaeth, rhagfarn, gwahaniaethu a chasineb ac nid oes lle iddynt mewn cymdeithas agored a democrataidd. Mae sicrhau hyder y rhai y mae trosedd casineb yn effeithio arnynt oherwydd pwy ydyn nhw yn hollbwysig wrth gyflawni ein dyletswydd i sicrhau bod pob un yn cael mynediad cyfartal at gyfiawnder.	Rhoi paneli ymgysylltu a chraffu lleol a phanel craffu cenedlaethol ar waith fesul cam Mehefin 2011 Datblygu cynllun gwaith adolygiad thematig ar drosedd casineb Mehefin 2011 Ymateb i argymhellion ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Medi 2011 Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar Drosedd Casineb Rhagfyr 2011

Amcan Strategol	**Effeithlonrwydd**	
Blaenoriaeth Cynllunio a Pherchennog	**Disgrifiad**	**Cerrig Milltir 2011-12**
Rhaglen Arbedion Effeithlonrwydd ar Draws y System Cyfiawnder Troseddol Nick Hunt, Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi	Cyd-drefnu cyfraniad y CPS at y cynllun arbedion effeithlonrwydd ar draws y system cyfiawnder troseddol a sicrhau'r buddion mwyaf o'r holl waith ar arbedion effeithlonrwydd a wneir yn y system gan gynnal buddion cyfiawnder. Mae'r meysydd gwaith yn cynnwys: • Creu cyfiawnder troseddol digidol; • Symleiddio gweinyddiaeth achosion; a • Diwygio cyfiawnder diannod.	Mae'r gwaith hwn wrthi'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd a bydd yn parhau drwy gydol 2011-12.
Moderneiddio Cyhuddo Nick Hunt, Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi	Gyda Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu a'r Swyddfa Gartref, byddwn yn ystyried unrhyw droseddau pellach y gellid eu dychwelyd at yr heddlu i'w cyhuddo dan ganllaw y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a'r risgiau a'r effeithiau y gallai hyn eu cael. Byddwn yn datblygu cynnig i dreialu'r dewisiadau a ffefrir ac ymgymryd â threialu pellach yn ôl yr angen.	Rhoi'r trefniadau cyhuddo diwygiedig ar waith fesul cam ar draws holl Ranbarthau'r CPS (4ydd Argraffiad o Ganllaw'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar Gyhuddo) 30 Mehefin 2011 Ystyried rhoi troseddau pellach ar waith fesul cam Ebrill – Mehefin 2011 Treialu troseddau pellach os cytunir i roi ar waith fesul cam Gorffennaf 2011 – Mehefin 2012
Ad-drefnu	Cyflwyno strwythurau newydd gan symud o 13 Grŵp i	Strwythur newydd yn ei le ar gyfer uwch reolwyr yn y

Rhanbarthau Mike Kennedy, Prif Swyddog Gweithredu	13 Rhanbarth dan arweiniad Prif Erlynydd y Goron a Rheolwr Busnes Rhanbarthol. Bydd y newidiadau hyn yn rhoi llawer mwy o gyfleoedd i Ranbarthau reoli a chyfateb eu hadnoddau â'u busnes. Trwy dorri ffiniau daearyddol yn yr hen strwythur fe ychwanegir mwy o effeithlonrwydd a hyblygrwydd.	Rhanbarthau Hydref 2011 Cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer strwythur newydd pob Rhanbarth Erbyn diwedd Mai 2012
Gostwng Costau Paul Staff, Cyfarwyddwr Cyllid	Fel gwasanaeth cyhoeddus, mae'n ddyletswydd arnom i weithio i'r safon uchaf am y gost isaf bosib. Byddwn yn ymgysylltu'n adeiladol ac egnïol gyda'r Adolygiad o Wariant i sicrhau ein bod wedi archwilio pob cyfle i gyflwyno ein gwasanaeth yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.	Gweithredu ein Strategaeth Ystadau i gyflwyno: • arbedion yng nghostau ystadau o £1.1m yn 2011/12; • 10% o ostyngiad mewn allyriadau CO_2 o ystad yr adrannau erbyn Mai 2011; a • Torri 10% ar ein defnydd o bapur yn 2011/12. Erbyn diwedd Mawrth 2012 Ffïoedd cwnsleriaid - trafod a chytuno ar strwythur diwygiedig ar gyfer y cynllun ffïoedd graddedig Erbyn 1 Gorffennaf 2011 Gweithredu'r cynllun caffael, gan gynnwys: • Mabwysiadu systemau e-gaffael ar gyfer o leiaf 50% o daliadau ffïoedd cwnsleriaid dan y cynllun ffïoedd graddedig; • O leiaf 75% o drafodion ar gyfer nwyddau cyffredinol a gwasanaethau i'w cwblhau yn electronig Erbyn diwedd Mawrth 2012 Ymgymryd ag Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EIA) llawn ar ganlyniadau'r Adolygiad o Wariant Erbyn diwedd Mawrth 2012

Amcan Strategol	**Gweddnewid trwy dechnoleg**	
Blaenoriaeth Cynllunio a Pherchennog	**Disgrifiad**	**Cerrig Milltir 2011-12**
Gweddnewid trwy dechnoleg (T3) David Jones, Prif Swyddog Gwybodaeth	Gweithredu CPS digidol trwy gyfrwng gwell technoleg. Mae CPS digidol yn un heb bapur, ble mae biwrocratiaeth a thasgau aneffeithlon yn cael eu disodli gan ffyrdd hyblyg a mwy symudol o weithio. Mae yna wahanol linynnau yn perthyn i'r rhaglen, y rhan fwyaf yn ymwneud â gwaith ar draws y system cyfiawnder troseddol: • Derbyn gwybodaeth yn ddigidol gan yr heddlu; • Ffeil ddigidol yn brif ffeil yn y swyddfa; • Gwasanaeth digidol gyda gwybodaeth uwch am lysoedd, amddiffyn a Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr; • Gwasanaeth digidol ar gyfer anfon a thraddodi; • Defnyddio e-bost diogel ar gyfer pob gohebiaeth â phartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol; • Rheoli ac archifo cofnodion yn ddigidol; • Erlyn o liniadur neu ddyfais debyg; • Cyflwyno tystiolaeth yn electronig mewn achosion cymhleth yn Llys y Goron; a • Gofal tystion yn ddigidol. Mae T3 hefyd yn cefnogi rhaglen effeithlonrwydd y system cyfiawnder troseddol trwy: • Moderneiddio Cyhuddo – Defnyddio technoleg i ganiatáu i'r heddlu a'r CPS rannu gwybodaeth am gyhuddo; • Manteisio ar dechnoleg fideo – Galluogi	Cwblhau rhoi prawf ar safleoedd Mabwysiadu'n Gynnar a datblygu'r 9 cydran gweithio digidol Ebrill 2011 Cyhoeddi pob cynnyrch Ebrill 2011 Cwblhau cynllunio gweithredu gan Ranbarthau Mai 2011 Rhyddhau newidiadau TG i ganiatáu gweithio'n ddigidol yn llwyr Hydref 2011 Safleoedd Mabwysiadu'n Gynnar yn gweithio'n ddigidol yn llwyr Hydref 2011

Amcan Strategol	**Pobl**	
Blaenoriaeth Cynllunio a Pherchennog	**Disgrifiad**	**Cerrig Milltir 2011-12**
Strategaeth Pobl Mark Summerfield, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (HR)	Bydd y Strategaeth Pobl yn creu llwyfan ar gyfer newidiadau yn niwylliant y gweithlu a'r sefydliad. Mae'n seiliedig ar: • Arweinyddiaeth Bersonol • Sgiliau a Gallu • Gwella Perfformiad • Rheoli Adnoddau • Busnes a Chynhwysiant • Cymryd Rhan	Lansio'r Strategaeth Pobl Gorffennaf 2011 Ymhlith y mesurau pobl a gynhwysir yn y fframwaith perfformiad y mae Cynyddu Mynegai Ymgysylltiad Gweithwyr Cyflogedig (EEI) i 56% Ebrill 2011 ymlaen Arolwg Pobl (sy'n mesur ymgysylltiad gweithwyr cyflogedig) Hydref 2011 Canlyniadau'r Arolwg Pobl Rhagfyr 2011 Cyflawni canlyniadau Cynllun Gallu'r Gweithlu Mawrth 2012 Symud rhai gwasanaethau adnoddau dynol i adrannau mwy y llywodraeth dan raglen Adnoddau Dynol y Genhedlaeth Nesaf. Parhaus
Cydraddoldeb	Cwrdd â'n hymrwymiadau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Adran 149 y Ddeddf yn gosod 'dyletswydd	Datblygu rhaglen hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i sicrhau bod staff yn deall ac yn meddu ar

Dale Simon, Cyfarwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	gyffredinol' ar bob corff cyhoeddus a gwmpasir ganddi i roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu a fictimeiddio; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin perthnasau da rhwng gwahanol grwpiau.	y gallu i gyflawni eu dyletswyddau dan y Ddeddf Cydraddoldeb Medi 2011 Cyhoeddi gwybodaeth ddigonol i ddangos bod y CPS yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb. Rhaid i'r wybodaeth hon gynnwys: • yr effaith a gafodd polisïau ac arferion ar bobl sy'n rhannu nodwedd berthnasol a warchodir; • tystiolaeth o'r dadansoddiad a gyflawnwyd i sefydlu a yw polisïau ac arferion wedi hybu nodau'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol, neu a fyddent yn gwneud hynny; • manylion y wybodaeth a ystyriwyd wrth gynnal y dadansoddiad; • manylion yr ymgysylltu a gyflawnwyd gyda phobl yr ystyrir bod ganddynt ddiddordeb mewn hybu nodau'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol. Gorffennaf 2011 Paratoi a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb sy'n benodol, mesuradwy a rhaid mynd i'r afael â sut bydd awdurdod cyhoeddus yn cwrdd â nodau'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol, a sut y mesurir cynnydd tuag at yr amcanion. Ebrill 2012 Gweithio gyda rhwydweithiau staff i nodi a mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi profiadau staff gwahaniaethol ar gyfer staff anabl, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Rhagfyr 2011

Risgiau Corfforaethol y CPS

Fe gafodd y Gofrestr Risg Gorfforaethol ei diweddaru yn ystod 2010-11 i edrych mwy tua'r dyfodol ac alinio â'r pedwar amcan strategol. Mae'r risgiau yn adlewyrchu canlyniad ac effaith yr Adolygiad o Wariant a'r gostyngiad sylweddol mewn adnoddau ar draws y system cyfiawnder troseddol am y pedair blynedd nesaf. Mae Bwrdd y CPS yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol ar gyfer rheoli risgiau ar gael a bod risgiau corfforaethol yn cael eu rheoli'n briodol ac yn cynnwys hyrwyddwr rheoli risg. Bydd Grŵp y Cyfarwyddwyr, ar ran y Bwrdd, yn ymgymryd â throsolwg manwl ar y gallu i reoli risg a rheoli risgiau corfforaethol allweddol. Mae'r holl berchnogion risg corfforaethol yn Aelodau o'r Bwrdd neu'n Aelodau o Grŵp y Cyfarwyddwyr.

Amcan Strategol	**Risg Gorfforaethol**
Ansawdd	Rheoli ein hymrwymiadau i ddioddefwyr a thystion gyda llai o adnoddau a blaenoriaethau sy'n newid Cymhwyso'r Safonau Ansawdd Craidd yn anghyson ar draws y meysydd gweithredol, gan effeithio ar ein cyflawniad yn gyffredinol Rheoli ymrwymiadau lleol erlyn cymunedol yn erbyn blaenoriaethau a safonau cenedlaethol
Effeithlonrwydd	Yr hinsawdd ariannol fwy heriol yn profi ein gallu rheoli ariannol Mae effeithiau cyfyngiadau ariannol ar bartneriaid cyfiawnder troseddol a rhanddeiliaid eraill yn cyfyngu ar eu hymgysylltiad â'r CPS ac yn effeithio ar ein gallu i gyflawni ein blaenoriaethau allweddol
Gweddnewid trwy Dechnoleg	Ein gallu i ymateb yn effeithiol i batrymau newidiol troseddau, penderfyniadau a'u niferoedd, ac anghenion y rhai a ddaw i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol
Pobl	Ein gallu i nodi tueddiadau gwael sydd i'w gweld mewn perfformiad ac ymyrryd yn brydlon lle bo angen er mwyn cynnal y sylfaen sgiliau gywir ar gyfer staff

Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am y CPS i'w chael yn http://www.cps.gov.uk/index.html .